

# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cynghorydd C. Davies

Ward: Caerau

## Plaid: Annibynwyr Llynfi

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2023**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

### Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Caerau ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi dros 100 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Rwyf hefyd wedi ymdrin yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor ac ar fy ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

### Gweithgaredd yn yr Etholaeth

Un o'r materion y gwnes i ymdrin ag ef oedd mater ar ran un o drigolion V2C. Roedd ei gartref wedi bod mewn cyflwr gwael ers dros bedair blynedd oherwydd lleithder, dŵr yn mynd i mewn drwy'r ffenestri a phlymio gwael a oedd yn achosi gollyngiadau. Trwy ddarparu ffotograffau a fideos i V2C, gyda chytundeb y tenant, llwyddais i ddatrys yr holl faterion hyn. O ganlyniad, rwyf nawr yn gweithio'n agosach gyda V2C ac yn mynychu nifer o'u cyfarfodydd a'u hymweliadau safle.

Rwyf wedi cwrdd â nifer o drigolion Caerau y mae cynllun Arbed wedi effeithio ar eu cartrefi ac wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Gwasanaeth Cyswllt Preswylwyr.

Rwyf wedi mynychu ac wedi cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd ymgynghori Dyfodol Iach Maesteg, a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf mewn perthynas ag ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg.

### Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n Gadeirydd Sied Dynion Caerau ac rwyf wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o wneud nifer o flychau plannu yn ein gweithdy ar gyfer ysgolion lleol a Pharc Lles

Maesteg yn ogystal â gweithio fel gwirfoddolwr ar y rhandiroedd cymunedol yno a chynorthwyo Cyfeillion Parc Maesteg gyda'u Helfa Wyau Pasg flynyddol.

Fe wnes i helpu i drefnu Taith Sled Siôn Corn drwy Faesteg a Chwm Llynfi ar ddwy noson adeg y Nadolig, gan fynychu'r digwyddiad hwnnw hefyd. Fe wnes i hefyd helpu i drefnu Ogorf Siôn Corn ar gyfer y plant yng Ngweithdy Sied Dynion Caerau. Fe wnes i sicrhau bod coed Nadolig ffres yn cael eu darparu am ddim i nifer o ysgolion cynradd lleol gan y Sied Dynion yn ogystal ag ymweliadau gan Siôn Corn.

### **Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fel cyn-löwr fy hun, rwy'n Gadeirydd Cymdeithas Cyn-lowyr Cwm Llynfi, y mae ei 36 aelod yn cyfarfod bob pythefnos, ac fel un o ymddiriedolwyr Sefydliad Glowyr Nantyffyllon rwy'n mynychu cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned leol. Rwyf hefyd wedi rhoi sgysiau mewn ysgolion lleol am byllau glo a'u cymunedau.

Rwy'n un o ymddiriedolwyr Hafan Ddiogel Maesteg, sy'n gofalu am Wcreiniaid sydd wedi'u dadleoli sy'n byw yng Nghwm Llynfi.

Fel Cadeirydd, rwy'n helpu i drefnu cyfarfodydd wythnosol Sied Dynion Caerau yng Nghapel Dyffryn ac yn mynychu'r cyfarfodydd hynny yn rheolaidd. Mae dros hanner cant o aelodau erbyn hyn.

**Cynghorydd: C. Davies**

**Dyddiad: 26/06/23**